Pembrokeshire Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

**COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO**
**Dydd Mawrth 28 Tachwedd 2023 am 10:00am (cyfarfod Microsoft Teams)**

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Cyngh. Neil Prior | CSP (Cadeirydd) |
| Ardiana Gjini | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Hywel Dda |
| Darren Mutter | Pennaeth Gwasanaethau Plant, CSP (gadawodd am tua 11am) |
| Caroline Drayton | Rheolwr Gweithrediadau, CNC |
| David Evans | Dirprwy Bennaeth, Coleg Sir Benfro |
| John Evans | Cyfarwyddwr Sirol (Sir Benfro), BIP Hywel Dda |
| Alison Perry | Cyfarwyddwr Comisiynu, SCHaTh |
| Mydrian Harries | Prif Swyddog Cynorthwyol - Cyfarwyddwr Adnoddau, ATACGC |
| Tegryn Jones | Prif Weithredwr, APCAP |
| Sue Leonard | Prif Swyddog, PAVS |
| Claire Germain | Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau, Llywodraeth Cymru |
| Vikki Butler | Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru (gadawodd am 12.15pm) |
| Steve Keating | Rheolwr Ynni a Chynaliadwyedd, CSP |
| Ant Rogers | Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth, CSP |
| Emma Taylor | Swyddog Pobl a Lleoedd, CNC |

*<u>Cymorth/ysgrifenyddiaeth</u>*

| | |
|---|---|
| Nick Evans | Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol, CSP |
| Lynne Richards | Swyddog Partneriaethau Corfforaethol, CSP |
| Rachael Rimmer | Swyddog Cymorth Polisi Corfforaethol, CSP |

**<u>Ymddiheuriadau</u>**

| | |
|---|---|
| Will Bramble | Prif Weithredwr, CSP |
| Richard Brown | Prif Weithredwr Cynorthwyol, CSP |
| Michael Gray | Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai, CSP |
| Phil Kloer | Prif Weithredwr Dros Dro, BIP Hywel Dda |
| Linda Jones | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol GC |
| Y Cyngh. John Davies | Is-Gadeirydd Awdurdod Tân CGC |
| Yr UA Craig Templeton | Heddlu Dyfed Powys |
| Barry Walters | Pennaeth, Coleg Sir Benfro |
| Iwan Thomas | Prif Weithredwr, PLANED |

Dechreuodd y cyfarfod am 10:01

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Fe wnaeth NP groesawu pawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan y rhai a restrir uchod.

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf / Log Camau Gweithredu

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 26 Medi 2023 fel rhai cywir.
Roedd yr holl gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol wedi cael eu cwblhau.

## 3. Sesiwn 'Sylw Penodol' ar y Cynllun Llesiant – Prosiectau ar Thema'r Amgylchedd

Fe wnaeth NP wahodd CD i gyflwyno'r sesiwn sylw penodol ar gyfer prosiectau ar thema'r amgylchedd. Nododd CD y byddai AR, SK ac ET yn ymuno â hi i roi'r diweddariadau hyn. Amlygodd fod thema allweddol wedi codi mewn perthynas â buddsoddi i arbed, gan bod cyfyngiadau a phwysau cyllidebol eithriadol o ran yr adnoddau y mae eu hangen i gyflawni prosiectau. Gofynnodd i'r holl aelodau ystyried sut y gall y BGC ychwanegu gwerth a dwyn manteision i bawb.

*Bioamrywiaeth a'r argyfwng natur*

Fe wnaeth CD wahodd AR i gyflwyno'r prosiect bioamrywiaeth a'r argyfwng natur. Esboniodd AR, er bod prosiectau wedi bod yn oportiwnistaidd, nad ydynt yn cael eu cydgysylltu'n dda ymhlith aelodau'r BGC.

I ddynodi cynnydd, cyfeiriodd AR y ddau brif gam gweithredu bioamrywiaeth o'r cynllun llesiant. Amlygodd nad yw'r BGC yn perfformio cystal wrth godi proffil bioamrywiaeth o ystyried y rôl sydd gan bartneriaid i fynd i'r afael â'r argyfwng natur. Fodd bynnag, dywedodd ein bod yn gwneud mwy o gynnydd o ran cydweithio i gyflawni camau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur (CGAN) ar gyfer Sir Benfro. Er mwyn dangos rhywfaint o'r cynnydd cadarnhaol sy'n cael ei wneud, cyflwynodd AR amryw brosiectau sy'n cael eu cynnal gan Bartneriaeth Natur Sir Benfro (PNSB). Rhoddodd esboniad byr o bob prosiect i'r grŵp, ac eglurodd pa fanteision y mae'r rhain yn eu dwyn. Rhoddodd ddiweddariad hefyd am brosiect Plant Sir Benfro, lle mae coeden yn cael ei phlannu ar gyfer pob plentyn sy'n cael ei eni neu ei mabwysiadu i deulu yn Sir Benfro. Mae tua 6,500 o goed wedi cael eu plannu fel rhan o'r prosiect hwn hyd yn hyn, ac mae newydd gael ei fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru.

Bu AR hefyd yn trafod rhai o'r problemau presennol sy'n effeithio ar fioamrywiaeth a'r argyfwng natur yn Sir Benfro. Trafododd mai un o'r meysydd sy'n achosi pryder allweddol yw darnio cynefinoedd sy'n weddill ar draws tirwedd Sir Benfro. Amlygodd hefyd sut yr oedd yr adroddiad diweddar ar Sefyllfa Byd Natur yn adlewyrchu bod Sir Benfro'n dal i golli bioamrywiaeth, ac nad ymdriniwyd yn ddigonol â'r pwysau sy'n achosi'r dirywiad hwn, fel trefoli a llygredd.

Pwysleisiodd AR bwysigrwydd peidio ag ystyried yr economi a chymdeithas fel agweddau sydd ar wahân i natur, ond yn hytrach cydnabod eu bod wedi'u hymgorffori ynddi. Amlygodd fod angen edrych ar y risgiau byd-eang hirdymor, a chyfeiriodd at ddata Fforwm Economaidd y Byd ar ganfyddiadau am risgiau byd-eang. Mae hyn yn adlewyrchu y rhagwelir mai pryderon ynghylch yr hinsawdd fydd y mater pwysicaf dros y deng mlynedd nesaf.

Nododd AR ei fod wedi derbyn dyfynbris dangosol o £12k gan ymgynghorydd profiadol i ddatblygu cynllun gweithredu, ac y byddai gofyn i bob aelod o'r BGC ddarparu cyfraniad o £1k fel y gellid bwrw ymlaen â hyn. Mae ei rôl bresennol yn golygu nad oes ganddo'r capasiti i ymgymryd â'r dasg hon ei hun a heb gynllun cyflawni ni fydd y gwaith yn gallu symud ymlaen. Gofynnodd AR hefyd i aelodau'r BGC adolygu eu cynrychiolwyr a enwir fel cysylltiadau ar gyfer Cynllun y BGC gan bod rhywfaint o ddryswch ynghylch rolau a chyfrifoldebau ar is-grwpiau.

Dywedodd DE y byddai Coleg Sir Benfro'n gallu darparu cyfraniad o £1k a dywedodd SL y byddai'n gofyn i Fwrdd PAVS yn eu cyfarfod nesaf a oedd hyn yn rhywbeth y gallent hwy ymrwymo iddo. Dywedodd AG hefyd ei bod hithau'n cefnogi hyn fel ffordd ymlaen ond y byddai'n rhaid iddi wirio gyda chydweithwyr i weld a oedd hyn yn bosibl. Nododd TJ y byddai codi £12k i ddatblygu cynllun cyflawni manwl yn fuddsoddiad da er mwyn ysgogi cyllid ychwanegol i gyflawni'r prosiect.

Fel cam nesaf, trafododd AR sut i gyflawni'r camau gweithredu canlynol:

- Sicrhau'r capasiti i symud ymlaen gyda datblygu Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar gyfer BGC Sir Benfro
- Adolygu cysylltiadau enwebedig ar gyfer pob aelod o'r BGC a chryfhau ymrwymiad i gydweithio

Fe wnaeth NP wahodd y grŵp i drafod y diweddariadau a roddwyd. Disgrifiodd MH sut y mae angen i newid ddechrau ar lefel wleidyddol ehangach, a holodd sut y gallai sefydliadau neu sectorau eraill yn Sir Benfro ymwneud â'r materion a drafodwyd. Amlygodd AR fod angen dod o hyd i gydbwysedd rhwng mynd i'r afael â'r argyfwng natur a chefnogi amaethyddiaeth. Mynegodd MR eu bod yn ceisio dod o hyd i gydbwysedd tebyg o ran twristiaeth, trwy geisio annog pobl i ymweld â'r sir gan reoli eu heffaith ar natur ar yr un pryd. Trafododd AG hefyd sut y ystyried materion o safbwynt twristiaeth yn Sir Benfro'n gwneud ein dull o weithredu yn wahanol i siroedd eraill. Pwysleisiodd TJ fod yr argyfwng natur yn aml yn cael ei gamddeall gan bobl, ac y gallai hyn fod yn gyfle da i ymgysylltu â phenderfynwyr ym mhob sefydliad i amlygu pwysigrwydd y neges. Cytunodd AR ei bod yn anos deall yr argyfwng natur, gan ei bod yn anos rhoi gwerth ariannol iddo. Dywedodd DE ei fod yn awyddus i helpu i gefnogi prosiectau bioamrywiaeth ac argyfwng natur. Pwysleisiodd SL bwysigrwydd cydweithio â phobl mewn cymunedau a chyflwyno syniadau gan bobl leol. Dywedodd AR fod hyn yn fater o gapasiti ac adnoddau.

Anfonodd AR sleidiau'r cyflwyniad at LR i'w cylchredeg i'r grŵp.

*<u>Datgarboneiddio a sero net</u>*
Fe wnaeth CD gyflwyno SK i drafod y prosiectau datgarboneiddio a sero net. Trafododd ddau brosiect allweddol: hyfforddiant llythrennedd carbon a'r Cynllun Ynni Ardal Leol (CYAL).

Trafododd SK sut y cynhaliwyd arolwg barn ar draws aelodau'r BGC i ganfod pwy sydd wedi cael hyfforddiant llythrennedd carbon. CSP a'r Parc Cenedlaethol oedd yr unig ddau nad oeddent wedi datblygu eu hyfforddiant llythrennedd carbon eu hunain,

felly cafodd hyn ei wthio ymlaen a'i ariannu mewn partneriaeth gyda Cynnal Cymru. Ers i'r hyfforddiant newydd hwn gael ei ddatblygu, mae 15 aelod o CSP a'r Parc Cenedlaethol bellach wedi hyfforddi a gallant wneud cais am achrediad llythrennedd carbon i hyfforddi aelodau pellach. Mynegodd SK fod yr hyfforddiant hwn wedi cael ei ddatblygu fel rhywbeth generig ar gyfer Sir Benfro y gellir ei rannu i sefydliadau eraill. Dywedodd, pan fyddai fersiwn derfynol y sleidiau ar gael, y byddent yn cael eu rhannu gydag aelodau'r BGC. Trafododd SK y modiwlau e-ddysgu newydd a ddatblygwyd gan Fae Abertawe hefyd. Dywedodd y byddai'r rhain yn cael eu rhannu gyda sefydliadau unigol.

Mynegodd SK hefyd fod CYAL Sir Benfro bellach wedi'i gwblhau, ac mai Sir Benfro yw'r trydydd awdurdod lleol yng Nghymru i fod wedi cwblhau cynllun. Dywedodd y byddai hwn yn cael ei rannu'n ehangach yn y pen draw, ond nad oes digon o adnoddau i wneud hyn eto. Cadarnhaodd SK y byddai'r CYAL yn cael ei cylchredeg i'r grŵp hwn yn dilyn y cyfarfod. Pwysleisiodd, gan bod y cynllun yn ystyried y sir gyfan, y byddai'r sectorau cymunedol, gwirfoddol a phreifat yn rhan o'i gyflawni hefyd. Dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ariannu tair swydd newydd yn rhanbarth Bae Abertawe i yrru'r CYAL yn ei flaen.

Mynegodd TJ mai mantais hyfforddiant llythrennedd carbon yw bod pawb yn siarad yr un iaith. Awgrymodd y gallai aelodau o'r BGC gael sesiwn mewn hyfforddiant llythrennedd carbon, er mwyn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i ddeall yr iaith sy'n cael ei defnyddio. Awgrymodd SK efallai y gellid rhannu'r sleidiau er mwyn i bobl edrych arnynt yn eu hamser eu hunain.

Gofynnodd NP pa gymorth y mae ei angen gan y BGC i symud y CYAL yn ei flaen. Dywedodd SK, gan y bydd y CYAL yn cael ei ddiweddaru'n barhaus i fynd i'r afael â sefyllfaoedd sy'n newid, y byddai'r BGC yn ffynhonnell gymorth gyson yn ystod y broses hon. Mynegodd hefyd, os oes rhwystrau penodol y gellir eu datrys trwy weithredu ar y cyd, y byddir yn dod â'r rhain yn ôl i'r BGC. Amlygodd NP bwysigrwydd darparu rhagor o wybodaeth i'r BGC ynghylch sut orau i gynnig ei gymorth.

*<u>Addasu i newid hinsawdd</u>*
Fe wnaeth CD wahodd ET i drafod diweddariadau ar brosiectau ar gyfer addasu i newid hinsawdd. Dynododd ET fod Sir Benfro mewn sefyllfa gymharol dda gan bod gennym eisoes strategaeth bum mlynedd wedi'i chydgynhyrchu ar gyfer addasu i newid hinsawdd. Fodd bynnag, mae angen gwaith sylweddol o hyd i lywio a chydlynu'r broses o gyflawni'r strategaeth. Disgrifiodd ET hefyd sut y mae 39 o flaenoriaethau risg newid hinsawdd wedi'u hadnabod yn Sir Benfro, ond nad yw'r rhain ar hyn o bryd wedi cael eu rhoi mewn trefn restrol na'u blaenoriaethu mewn unrhyw ffordd. Amlygodd sut y gallai fframwaith newydd CNC a'i fethodoleg helpu i roi cymorth i flaenoriaethu'r risgiau hyn. Disgrifiodd ET sut y mae canfod adnoddau i symud y gwaith hwn yn ei flaen wedi bod yn un rhwystr penodol.

Yn gyffredinol, nododd ET fod angen ffocws ehangach ar yr hinsawdd mewn meysydd gwaith eraill. Er enghraifft, mae angen ystyried gwaith ar yr hinsawdd wrth ganolbwyntio ar gryfhau cymunedau. Nododd ei bod yn ymddangos fel pe bai gwaith presennol yn canolbwyntio ar anghenion cymdeithasol y foment heb werthfawrogi sut y mae gwaith ar yr hinsawdd yn helpu i gyfrannu at ddatrysiadau. Pwysleisiodd

hefyd y bydd ceisio mynd i'r afael â materion cymdeithasol yn y tymor byr, heb werthfawrogi gwaith ar yr hinsawdd, yn atal datrysiadau hirdymor rhag cael eu llunio.

Gofynnodd ET i'r grŵp ystyried sut y gall aelodau'r BGC ad-drefnu eu hadnoddau i addasu i'r risgiau sy'n cael eu hwynebu. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd adnabod cymunedau y gallwn weithio gyda hwy ar lawr gwlad i fynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn y gymuned.

Trafododd CD, er bod llawer o frwdfrydedd y tu ôl i'r gwaith a amlinellir yn y Cynllun Llesiant, fod angen meddwl am ffordd realistig y gall y BGC ei gyflawni, gan nad yw'n glir ar hyn o bryd ble y mae'r BGC wedi gwneud gwahaniaeth sylfaenol i'r hyn a fyddai wedi digwydd beth bynnag. Pwysleisiodd AR, pe bai'r grŵp yn gallu dod o hyd i'r adnodd i roi'r strategaeth ar waith, y gellid defnyddio hynny i helpu i ddenu cyllid ychwanegol.

**4. Diweddariadau ar Brosiectau'r Cynllun Llesiant**

Tlodi:

- Mae'r uwchgynhadledd tlodi wedi'i threfnu ar gyfer 14 Chwefror 2024 yng Ngholeg Sir Benfro. Mae trefniadau i gael siaradwyr yn y digwyddiad yn cael eu gwneud ar hyn o bryd. Bwriedir gofyn i'r rhai a fydd yn bresennol wneud ymrwymiadau ac addewidion ar y dydd mewn perthynas â gweithgarwch sefydliadol.
- O ran templed monitro'r cynllun gweithredu, mae taenlen ddrafft fwy cynhwysfawr bellach wedi'i pharatoi. Hwn fydd yr offeryn monitro newydd ar gyfer y cynllun gweithredu wrth edrych tua'r dyfodol, ac mae'n cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y grŵp tlodi ar gyfer golygiadau terfynol ac i'w gymeradwyo.
- Nid oes arian costau byw ychwanegol ar gyfer y rhaglen Cadw'n Gynnes, Cadw'n Iach eleni.
- Cyfeiriodd DM at adroddiad costau byw Coleg Prifysgol Llundain. Roedd hwn yn canolbwyntio'n gryf ar groestoriadedd, ac yn dadlau dros gydnabod y gallai nodweddion a ffactorau personol pobl effeithio ar lefelau tlodi.
- Bydd DM yn anfon adroddiad grŵp arbenigol Cymru at LR i'w ddosbarthu i'r grŵp. Roedd yr adroddiad hwn yn amlygu bod angen newidiadau strategol, hirdymor i sicrhau nad yw costau byw'n parhau i fod yn broblem yn y dyfodol.

Cryfhau cymunedau:

- Y Bwrdd Cryfhau Cymunedau yw'r CCRG bellach, a dyma'r grŵp lefel efydd newydd ar gyfer y BGC. Mae wedi edrych ar y camau a nodir yn y cynllun llesiant, ac mae am fireinio'r rhain ymhellach.
- Rhoddodd SL ddiweddariadau ar y cynadleddau a gynhaliwyd ar 19 a 25 Hydref. Cafwyd y cynadleddau hyn yn ddefnyddiol iawn, a bydd yr adroddiadau a ysgrifennwyd o ganlyniad yn helpu i lywio gwaith yn y dyfodol.
- Os bydd y cynnig presennol am gyllid yn llwyddiannus, bydd yn dod ag adnodd ychwanegol am flwyddyn i weithredu ar gyfer proffilio cymunedol ac ymgysylltu â chymunedau.

**5. Cynllun Rheoli Risgiau Cymunedol Gwasanaeth Tân CGC 2040**

Disgrifiodd MH sut mae Gwasanaeth Tân CGC yn ymgynghori ar hyn o bryd ar eu Cynllun Rheoli Risgiau Cymunedol drafft 2040. Roedd y cynllun blaenorol yn cael ei ystyried yn ddryslyd o ran ymgysylltu â staff, ac felly cytunwyd i wneud un strategaeth â ffocws pendant gyda set o amcanion a all gadw at un weledigaeth glir. Ar hyn o bryd mae wyth amcan gwelliant a llesiant drafft fel rhan o'r strategaeth newydd. Rhoddodd MH esboniad byr o bob un, a gwahoddodd aelodau i roi eu hadborth trwy gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Mae'r ymgynghoriad ar agor am 10 wythnos, a bydd yn cau ar 15 Ionawr 2024. Bydd MH yn dosbarthu'r ymgynghoriad hwn i'r grŵp.

**6. Diweddariad ar Gorwel**

Amlygodd LR yr oedi cyn cyflawni system Gorwel. Fodd bynnag, nododd fod cydlynydd rhanbarthol newydd yn ei le a fydd yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y BGC, i roi arddangosiad o’r system. Nododd NP y gallai arddangosiad o'r system fod yn fwy defnyddiol ar y lefel arian neu efydd, yn hytrach nag i'r BGC cyfan. Eglurodd NE fod y system hon wedi bod yn cael ei datblygu am nifer o flynyddoedd, a bod angen i'r BGC ystyried sut y bydd yn cael ei defnyddio yn y dyfodol. Disgrifiodd sut y bydd y system yn helpu'r BGC i ddeall data am lesiant ledled y sir, ond dywedodd y bydd defnyddioldeb hyn yn dibynnu ar sut y mae'r BGC yn dewis defnyddio'r data.

Dynododd SL y bydd y system yn ddefnyddiol i waith y BGC, ac y bydd hefyd yn cysylltu â'r gwaith ymgysylltu ar gyfer cymunedau. Amlygodd sut y bydd yn cynorthwyo cymunedau yn eu hymdrechion cynllunio eu hunain ar y lefel leol. Trafododd hefyd sut y gellid ei gysylltu â WISERD fel lle arall i gael data, ond nododd nad oes arnom eisiau i ddata ddod i mewn o ormod o wahanol ffynonellau. Roedd CG yn cytuno y gallai'r system fod yn ddefnyddiol ar y lefel arian, ac mewn sesiynau lle rhoddir sylw penodol ar lesiant.

**7. Unrhyw Fater Arall**

Nid oedd unrhyw fater arall.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:19pm

**Log Camau Gweithredu**

| Rhif | Tud. | Cam Gweithredu | Dyddiad targed | Perchennog | Penderfyniad |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | Sicrhau capasiti i symud ymlaen gyda datblygu Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar gyfer aelodau BGC Sir Benfro | Cyfarfod nesaf | AR | |
| 2 | 2 | Adolygu cysylltiadau enwebedig ar gyfer pob aelod o'r BGC | Cyfarfod nesaf | PAWB | |
| 3 | 3 | Cylchredeg y sleidiau bioamrywiaeth ac argyfwng natur | CGâPh | LR | Wedi'i gwblhau |
| 4 | 3 | Cylchredeg y CYAL | CGâPh | SK | |
| 5 | 4 | Cylchredeg adroddiad Grŵp Arbenigol Cymru | CGâPh | LR (pan ddaw i law) | |
| 6 | 5 | Dosbarthu ymgynghoriad Cynllun Rheoli Risgiau Cymunedol Gwasanaeth Tân CGC 2040 | CGâPh | MH | Wedi'i gwblhau |